



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Tîm Iechyd Cyhoeddus Deintyddol

Y DEFNYDD O ANESTHETEG CYFFREDINOL WRTH ROI TRINIAETH DDEINTYDDOL I BLANT YNG NGHYMRU

Awdur: Maria Morgan

Comisiynwyd gan: Prif Swyddog Deintyddol Cymru

Dyddiad: Awst 2019

Fersiwn: 1

Cyhoeddiad/ Dosbarthiad:

- Prif Swyddog Deintyddol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (mewnol)
- Byrddau Iechyd
- Pwyllgorau Deintyddol Lleol

Dyddiad Adolygu: Ebrill 2020

Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni:

Diben y gwaith hwn yw pennu ffigur cyffredinol ar gyfer triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol a roddir i blant rhwng 0-17 mlwydd oed yng Nghymru yn ystod 2018-19 a chymharu hynny â data a gasglwyd ers 2011-12. Dylai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol i'r byrddau iechyd yn eu gwaith o gynllunio gwasanaethau deintyddol lleol a hysbysu polisi deintyddol Llywodraeth Cymru ynghylch gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg.

Cyfeirnod y Cynllun Gwaith:

Cynllun Gwaith Tîm Iechyd Cyhoeddus Deintyddol

1 Y Defnydd o Anestheteg Cyffredinol wrth roi Triniaeth Ddeintyddol i Blant yng Nghymru

Cefndir

Argymhellodd ymchwiliad yn 2011 i Iechyd y Geg ymhlith Plant a gynhaliwyd gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr hyn a ganlyn:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod data am y nifer o achosion o weinyddu anaesthetig cyffredinol i blant a phobl ifanc ar gyfer gwaith deintyddol yng Nghymru yn cael ei gasglu a bod hynny'n cael ei adrodd fel rhan o fonitro Cynllun Gwên.

Roedd ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn cytuno â'r argymhelliad hwn, ac yn cydnabod yr hyn a ganlyn:

Gallai hyn fod yn ddangosydd defnyddiol o lwyddiant Cynllun Gwên, ond mae'n bwysig casglu'r data hyn ar gyfer Cymru gyfan, gan ddefnyddio dull cadarn a safonol.

Nid yw anesthesia cyffredinol heb risg ac felly dim ond pan fo'i angen y dylid ei ddefnyddio. Mae'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at ddefnydd uchel o anesthesia cyffredinol ar gyfer tynnu dannedd yn cynnwys iechyd y geg gwael, diffyg brysbennu, asesu a chynllunio gofal deintyddol i blant sydd o dan ofal y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol neu sy'n cael eu hatgyfeirio ganddynt, neu ddarpariaeth anaddas o'r gwasanaethau hyn, ac anhawster o ran cael mynediad at ddewisiadau amgen priodol yn lle triniaethau anesthesia cyffredinol. O ystyried y gwelliannau a welwyd ym maes iechyd y geg yn y blynyddoedd diwethaf, dylai fod gostyngiad yn yr angen i ddefnyddio anesthesia cyffredinol. Dylai cyflwyniad diweddar y system E-atgyfeirio gefnogi byrddau iechyd i sefydlu gwasanaethau brysbennu, asesu a chynllunio triniaethau priodol, a ddylai leihau nifer y plant y mae angen iddynt gael triniaeth gan ddefnyddio anesthesia cyffredinol.

Diben

Diben y gwaith hwn yw pennu ffigur cyffredinol ar gyfer triniaethau deintyddol sy'n defnyddio anesthesia cyffredinol i blant 0-17 mlwydd oed yng Nghymru yn ystod 2018-19 a chymharu hyn â data a gasglwyd yn flynyddol ers 2011-12.

1.1 Dull

Casglwyd y data drwy gysylltu'n uniongyrchol â rheolwyr gwasanaethau deintyddol mewn Byrddau Iechyd i ofyn am wybodaeth ar gyfer 2018-19.

Nid oedd data hyn yn cynnwys triniaethau deintyddol a reolwyd drwy dawelyddu ymwybodol.

Mae'n bwysig nodi nad oes systemau gwybodaeth ar waith ledled Cymru i gynhyrchu data manwl gywir ac amserol mewn perthynas ag anesthesia cyffredinol deintyddol.

1.2 Casgliadau

Cyflawnwyd cyfanswm o 6,582 o driniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol yng Nghymru yn ystod 2018-19. Cyflwynir y rhain yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr yn Nhabl 1 ac yn ôl y Bwrdd Iechyd Lleol lle mae'r claf yn byw yn Nhabl 3. Mae hyn yn cyfateb i 0.98% o'r boblogaeth sydd o dan 18 sy'n cael triniaeth ddeintyddol yng Nghymru yn ystod 2018-19 (Tabl 4). *Neu mae un o bob 111 o blant* ledled Cymru yn cael triniaeth ddeintyddol gydag anesthesia cyffredinol.

Dylai fod gan Fyrddau Iechyd ddulliau cadarn ar waith i gofnodi data ar anesthesia cyffredinol deintyddol ar systemau gwybodaeth yr YSBYTY. Dylai Byrddau Iechyd fonitro data ar anesthesia cyffredinol deintyddol yn fanwl, gan gynnwys cyfradd ailgyflawni triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol, at ddibenion llywodraethiant clinigol lleol. Dylai'r set ddata gynnwys data ar lefel cofnod unigol sy'n rhoi gwybodaeth ddemograffig, manylion y driniaeth a'r math o anesthetig.

Tabl 1 Y defnydd o anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr, 2018-19

LHB of Provider/ Commissioner	Provider	0-2yrs	3-17yrs	Total
Abertawe Bro Morgannwg	CDS/Parkway Clinic	0	884	884
	Morrison Hospital	8	166	174
	Princess of Wales			0
Aneurin Bevan	Kensington Court	0	1144	1144
Aneurin Bevan	Royal Gwent Hospital	6	209	215
Betsi Cadwaladr	CDS	36	1098	1134
Cwm Taf	Prince Charles	58	369	427
Cardiff and Vale	University Dental Hospital	37	820	857
Cardiff and Vale	Royal Glamorgan (C&V CDS via SLA)	12	524	536
Hywel Dda	Parkway Clinic	0	1115	1115
Powys	Parkway Clinic	0	96	96
WALES TOTAL		157	6425	6582

**Dylid dehongli ffigurau Clinig Parkway ym Myrddau Iechyd Hywel Dda a Phowys â gofal, gan y gallent gynnwys cyfanswm nifer y triniaethau gydag anesthesia cyffredinol yn hytrach na niferoedd y cleifion unigol.*

Os cesglir data ar gyfer triniaethau gydag anesthesia cyffredinol yn wreiddiol drwy ddarparwr y tu allan i leoliad Ysbyty'r Bwrdd Iechyd, yna dylid cofnodi'r data hyn ar system wybodaeth YSBYTY y Bwrdd Iechyd ar ôl derbyn y data hynny gan y darparwr. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd wedyn pan wneir cais amdani gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'n ymddangos bod rhai anghysondebau yn y data o ran y modd y cofnodwyd y defnydd o anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth i blant ar gyfer trigolion Powys. Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru wedi derbyn data gan Glinig Parkway sy'n gysylltiedig â 96 o drigolion Powys (Tabl 1). Yn ôl Bwrdd Iechyd Powys, cafodd **26** o blant o Bowys driniaeth gydag anesthesia cyffredinol gan Fyrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru. Roedd y data a anfonwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol eraill Cymru at Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru yn nodi cyfanswm o **28** o blant ar gyfer Powys (Tablau 2 a 3). Er enghraifft, nododd Bwrdd Iechyd Cwm Taf (Tywysog Siarl) ei fod wedi rhoi triniaeth i 23 o drigolion Powys (Tabl 2) ond roedd Bwrdd Iechyd Powys yn nodi mai 14 oedd y ffigur. Fodd bynnag, dylid nodi mai prin yw'r ffigurau anghyson o dan sylw ac mae eu heffaith ar y darlun cenedlaethol yn fach iawn.

Tabl 2 Y defnydd o anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant sy'n byw ym Mhowys - a adroddwyd gan Fwrdd Iechyd Powys o gymharu â data a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd eraill, 2018/19

	Powys reported HB provided "x" GAs	Health Board reported "y" GAs for Powys
Aneurin Bevan	4	1
Betsi Cadwaladr	1	0
ABMU	7	4
Cwm Taf	14	23
TOTAL	26	28

Tabl 3 Y defnydd o anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol y claf – 2018-19

LHB of patient's residence	Provider	Number of patients from LHB 18/19
Aneurin Bevan	Kensington Court	1144
Aneurin Bevan	C&V - UDH	45
Aneurin Bevan	Royal Gwent*	211
Aneurin Bevan	Morrison Hospital (inc PoW)	3
Aneurin Bevan	Prince Charles	45
Aneurin Bevan total		1448
Abertawe Bro Morgannwg	CDS/Parkway	884
Abertawe Bro Morgannwg	Morrison Hospital (inc PoW)	121
Abertawe Bro Morgannwg	Prince Charles	3
Abertawe Bro Morgannwg	C&V - UDH	9
Abertawe Bro Morgannwg total		1017
Betsi Cadwaladr	Prince Charles	0
Betsi Cadwaladr	CDS	1134
Betsi Cadwaladr total		1134
Cwm Taf	CT CDS - at the Royal Glamorgan	529
Cwm Taf	C&V - UDH	35
Cwm Taf	Prince Charles	348
Cwm Taf	Morrison Hospital (inc PoW)	2
Cwm Taf	Royal Gwent*	0
Cwm Taf total		914
Cardiff and Vale	C&V - UDH	763
Cardiff and Vale	CT CDS - at the Royal Glamorgan	7
Cardiff and Vale	Morrison Hospital (inc PoW)	2
Cardiff and Vale	Prince Charles	4
Cardiff and Vale	Royal Gwent*	1
Cardiff and Vale total		777
Hywel Dda	Parkway	1115
Hywel Dda	Morrison Hospital (inc PoW)	42
Hywel Dda	Prince Charles	0
Hywel Dda	Royal Gwent*	0
Hywel Dda	C&V - UDH	3
Hywel Dda total		1160
Powys	Morrison Hospital (inc PoW)	4
Powys	Royal Gwent*	1
Powys	C&V - UDH	2
Powys	Prince Charles	23
Powys	Parkway Clinic	96
Powys total		126
WALES TOTAL		6576

* Nid yw'n cynnwys 6 o gleifion sy'n byw yn Lloegr

Mae tabl 4 yn dangos nifer y triniaethau gydag anesthesia cyffredinol fesul uned o'r boblogaeth plant. Gan ystyried mai'r prif ddangosydd ar gyfer

triniaeth gydag anesthesia cyffredinol yw ar gyfer ymdrin â dannedd sydd wedi'u heffeithio gan bydredd, byddem yn disgwyl darpariaeth uwch o driniaethau gydag anesthesia cyffredinol mewn ardaloedd sydd â lefelau uwch o bydredd.

Tabl 4 Nifer y triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol ymhlith y boblogaeth o dan 18 oed

LHB	Number of children aged <18	Number of GAs by LHB of patient's residence	Rate
Powys	27850	126	0.45
Cardiff & Vale	105416	777	0.74
Betsi Cadwaladr	148940	1134	0.76
Aneurin Bevan	133632	1448	1.08
Cwm Taf	66495	914	1.37
Hywel Dda	81028	1160	1.43
Abertawe Bro Morgannwg	110726	1017	0.92
WALES	674087	6576	0.98

*Data Cyfrifiad 2011 (wedi'i gyfrifo o grwpiau oedran un flwyddyn).


Noder: Nid yw 1 driniaeth gydag anesthesia cyffredinol yn cyfateb i 1 plentyn. Efallai fod ambell blentyn wedi cael mwy nag un driniaeth.

Mae'r lefelau uchaf o bydredd ymysg plant [3](#), [5](#) a [12](#) oed i'w gweld yn ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol Cwm Taf ac Aneurin Bevan. Mae cyfraddau'r triniaethau gydag anesthesia cyffredinol yn Hywel Dda wedi cynyddu'n amlwg eleni (Tabl 4 a Ffigur 2) ac nid ydynt yn cyd-fynd â'r canfyddiadau o arolygon deintyddol plant. Mae lle i wella'n sylweddol, a gellid lleihau nifer y triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol drwy wella brysbennu, asesu, cynllunio triniaethau a darparu triniaethau drwy dawelyddu ymwybodol.

1.3 Cymhariaeth â gweithgaredd blynyddoedd blaenorol

Mae Ffigur 1 yn cymharu gweithgaredd 2018-19 â'r data ar gyfer pob blwyddyn yn mynd yn ôl at 2011-12, sef y flwyddyn gyntaf y casglwyd data ar gyfer yr ymarfer hwn ac mae'n gweithredu fel data llinell sylfaen.

Ffigur 1 Gweithgaredd Anesthesia Cyffredinol 2011-2019




**Mae ffigur 2011-12 wedi'i addasu i amcangyfrif y niferoedd y mae'n bosibl eu bod wedi'u hadrodd gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan ar gyfer Ysbyty Brenhinol Gwent.*

Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi nad oedd ffigurau 2011-12 yn cynnwys data o Ysbyty Brenhinol Gwent ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan, oherwydd ni chawsant eu cofnodi. Er mwyn gwneud cymhariaeth decach rhwng y pedair blynedd yr adroddir arnynt, mae llinell sylfaen 2011-12 wedi'i haddasu i gynnwys 214 o driniaethau gydag anestheseia cyffredinol (sef ffigur 2012-13). Pe baem yn rhagdybio bod tua'r un nifer o driniaethau gydag anestheseia cyffredinol wedi'u cyflawni ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn 2011-12, yna'r **llinell sylfaen wedi'i haddasu ar gyfer Cymru** ar gyfer y flwyddyn honno fyddai $9,092 + 214 = \mathbf{9,306}$.

Nifer y triniaethau deintyddol gydag anestheseia cyffredinol i blant yng Nghymru yn 2018-19 oedd 6,582, sydd 512 yn fwy o gleifion o gymharu â 2017-18 (Ffigur 1). Mae hyn yn parhau i gynrychioli gostyngiad o **29%** (2724) yn nifer y triniaethau gydag anestheseia cyffredinol a roddwyd i blant ers 2011-12 (gan dybio bod llinell sylfaen wedi'i haddasu o 9,306). Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r ffigurau blaenorol wedi cynnwys yr holl weithgaredd ym Mhowys. Rydym hefyd yn credu bod cleifion yn cael eu cyfrif ddwywaith ledled Cymru - oherwydd gall y wybodaeth ymwneud â gweithgaredd sesiynau yn hytrach na phlant unigol. Mae'n bosibl bod y ffactorau hyn wedi cyfrannu at y cynnydd.

Mae Ffigur 2 yn dangos y gweithgaredd dros y chwe blynedd fwyaf diweddar fesul Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr.

Ffigur 2 Gweithgaredd Anesthesia Cyffredinol ar gyfer 2013-2019 yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr



1.4 Trafodaeth

Mae'n bwysig cydnabod bod pryderon ynglŷn â chyfrif cleifion ddwywaith ac anghysonderau data eraill – felly mae angen dehongli'r data ar driniaethau gydag anesthesia cyffredinol gyda gofal. Mae hyn yn amlygu'r angen am system wybodaeth gadarn ym mhob bwrdd iechyd.

Wrth adolygu'r data mewn blynyddoedd diweddar a gyflwynwyd gan ddarparwyr/comisiynwyr, mae'n amlwg bod meini prawf gwell ar gyfer asesu cleifion a llwybrau gofal gwell mewn rhai byrddau iechyd wedi dechrau cael effaith. Yn ystod 2014-15, dechreuodd y gweithgaredd anesthesia cyffredinol ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed leihau ar gyfer rhai darparwyr. Er enghraifft, yn 2013-14, darparodd Kensington Court driniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol i 1,834 o blant a oedd yn derbyn triniaeth ddeintyddol yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae hyn wedi gostwng i 1,144 yn 2018/19, sef gostyngiad o 690 (Ffigur 4(ii)).

Fodd bynnag, mae'n peri pryder y bu adroddiadau o gynnydd, yn ystod 2018/19, mewn gweithgareddau gan Glinig Parkway ar gyfer preswylwyr Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg a Hywel Dda. Credir bod newidiadau i'r canllawiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau

tawelyddu ymwybodol wedi golygu bod mwy o blant yn derbyn triniaeth gyda anesthesia cyffredinol yn y lleoliadau hyn. Dylid adlewyrchu ymhellach yn lleol ar beth y gellir ei wneud i leihau'r angen a'r galw am driniaeth ddeintyddol sy'n defnyddio anesthesia cyffredinol.


Roedd barn broffesiynol a fynegwyd gan randdeiliaid allweddol yn awgrymu bod angen adolygu argaeledd sesiynau anesthesia cyffredinol wrth i'r galw a'r angen leihau. Mae angen cynyddu argaeledd Gwasanaethau Deintyddol Peditrig a gwasanaethau tawelyddu ymwybodol i sicrhau bod dulliau angen hyfyw ac amserol ar gael.

O ystyried effeithiolrwydd systemau brysbennu, a'r amrywiaeth yn y ddarpariaeth o wasanaethau tawelyddu ymwybodol a gwasanaethau deintyddol peditrig arbenigol rhwng byrddau iechyd yng Nghymru yn 2018/19, mae'n ymddangos bod lle i wella'n sylweddol o ran lleihau anesthesia cyffredinol deintyddol a roddir i blant yng Nghymru. Er mwyn lleihau nifer y triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol ymhellach, bydd angen i Fyrddau Iechyd wneud gwelliannau i'w llwybrau gofal deintyddol presennol i blant. Bydd hefyd angen gwella iechyd deintyddol plant yn barhaus drwy gyflwyno gwasanaethau atal sylfaenol ac eilaidd yn seiliedig ar dystiolaeth yn effeithiol trwy leoliadau clinigol (e.e. practisau deintyddol) ac anghlinigol (e.e. ysgolion cynradd a meithrinfeydd).


Casgliad

Mae nifer y plant sy'n derbyn triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol yng Nghymru wedi cynyddu o 6,069 yn 2017/18 i 6,576 yn 2018/19. Ond mae hyn yn parhau i fod yn llawer is na'r ffigurau llinell sylfaen o 2011. Mae newidiadau mewn llwybrau gofal a phrosesau atgyfeirio lleol mewn rhai Byrddau Iechyd wedi cyfrannu at ostyngiad dros yr 8 mlynedd diwethaf. Rhagwelir y dylai nifer y plant sy'n derbyn triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol leihau ymhellach yn dilyn gweithredu'r system E-atgyfeirio a sefydliad llwybrau brysbennu a gofal ar draws y 7 bwrdd iechyd yng Nghymru.

Ffigur 4(i) Gweithgaredd Anesthesia Cyffredinol ar gyfer 2011-2019 wedi'i gyflwyno yn ôl y Bwrdd Iechyd Lleol lle mae'r claf yn byw



Ffigur 4(ii) Gweithgaredd Anesthesia Cyffredinol ar gyfer 2011-2019 wedi'i gyflwyno yn ôl darparwr o fewn ffiniau'r Bwrdd Iechyd Lleol



1.5 Argymhellion

Argymhellir bod Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd yn parhau i fonitro'r galw a'r angen am anesthesia cyffredinol wrth roi triniaethau deintyddol i blant ac yn gwneud gwelliannau parhaus i sicrhau bod plant yn cael y gofal mwyaf priodol yn y lleoliad mwyaf priodol.

Dylai fod gan Fyrddau Iechyd systemau gwybodaeth cyfrifiadurol i gasglu gwybodaeth gywir am nifer y plant sy'n cael triniaeth ddeintyddol gydag anesthesia cyffredinol. Bydd datblygu systemau gwybodaeth o'r fath o fewn byrddau iechyd yn hybu cadernid y set ddata ac yn cefnogi prosesau monitro lleol sydd ar waith i wella Ansawdd a Diogelwch. Wedyn dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd at ddibenion adrodd (yn genedlaethol/rhanbarthol/lleol) er mwyn llywio'r broses o gynllunio gwasanaethau.

O fewn eu Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg, dylai pob Bwrdd Iechyd ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor i leihau'r defnydd o anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant. Dylai gweithrediad y system E-atgyfeirio ar gyfer deintyddiaeth gefnogi'r Byrddau Iechyd i gyflwyno llwybr gofal i blant a atgyfeiriwyd gan Ofal Sylfaenol ar gyfer gofal deintyddol arbenigol neu uwch. Dylai llwybrau gofal o'r fath gynnwys brysbennu (gan gynnwys asesiad llawn a chynllunio gofal deintyddol) a bod y gofal deintyddol gofynnol yn cael ei ddarparu gan y tîm mwyaf priodol yn y lleoliad mwyaf priodol. Mae integreiddio prosesau atal parhaus wrth gynllunio gofal, darparu'r lefel briodol o dawelyddu ymwybodol a gwasanaethau deintyddol pediatrig arbenigol yn bwysig er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y llwybr gofal. Dylai cyflwyno'r system E-atgyfeirio ar gyfer deintyddiaeth fod yn gyfle i fyrddau iechyd fonitro, adolygu, datblygu a rhoi cynlluniau gwella ar waith.

Diolchiadau

Diolch i Reolwyr Gwasanaethau Deintyddol Byrddau Iechyd ar draws Cymru am ddarparu'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn. Diolch i Anup Karki am ei gymorth o ran rhoi'r casgliadau yn eu cyd-destun.